Llywodraeth Cymru

## Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

# Setliad Llywodraeth Leol Dros Dro 2025-2026

Crynodeb o'r Prif Sylwadau

***DS: Mae'r canlynol yn adlewyrchu safbwyntiau a dehongliadau ymatebwyr fel y'u rhoddwyd yn eu hymatebion.***

**Plaid Lafur Powys**

Croesawodd ymateb Plaid Lafur Powys ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wasanaethau cyhoeddus ynghyd â'r cyllid ychwanegol ar gyfer llywodraeth leol. Er hynny, roedd aelodau o'r farn nad oedd cost gwledigrwydd yn cael ei adlewyrchu'n ddigonol yn y fformiwla gyllido na'r setliad dros dro. Dywedodd yr ymateb fod dadansoddiad y Cyngor Sir o gostau gwledig yn dangos bod darparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol yng nghefn gwlad Cymru yn costio mwy a bod y costau ar gyfer darparu gwasanaethau gwledig yn parhau i dyfu er gwaethaf ymdrechion y Cyngor i drawsnewid gwasanaethau. Gofynnodd yr Aelodau fod ystyriaeth yn cael ei rhoi i Bremiwm Gwledig, wedi'i dalu y tu allan i'r fformiwla gyllido, i helpu i dalu'r costau hynny i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu yng nghefn gwlad Cymru. Byddai'r Aelodau'n croesawu'r cyfle i ymchwilio ymhellach i sefydlu Premiwm Gwledig gyda'r Prif Weinidog a'r Ysgrifenyddion Cabinet perthnasol.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) - Arweinwyr**

Cyfeiriodd ymateb CLlLC at ei thystiolaeth i'r Is-Grŵp Cyllid (FSG) y byddai pwysau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf yn rhyw 7% o'r gwariant cyfredol. Roedd y setliad dros dro, ar gyfartaledd o 4.3%, felly, yn brin iawn o'r lefel y mae ei hangen i gynnal gwasanaethau statudol ac i ddiwallu anghenion trigolion a chymunedau. Er bod cyllid y sector cyhoeddus yn parhau i fod o dan bwysau sylweddol a oedd yn gofyn am benderfyniadau anodd, mynegodd yr ymateb bryder am effaith bosibl toriadau mewn darpariaeth gwasanaethau a chynnydd cymharol fawr yn y dreth gyngor ar ddinasyddion. Byddai'r pwysau ariannol mewn addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn effeithio o bosibl ar wasanaethau dewisol cynghorau megis parciau, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden a gwasanaethau cynghori gan fod y rhain yn cael eu lleihau i fodloni'r pwysau cynyddol mewn gwasanaethau statudol. Dywedodd yr ymateb y byddai cynghorau'n cael eu gorfodi, heb gyllid ychwanegol, i dorri gwasanaethau ac i ystyried codiadau mewn ffigurau dwbl i'r dreth gyngor. Gan y byddai hyn yn effeithio ar gyllid aelwydydd, gofynnir am gyllid gwaelodol sylweddol.

Gofynnodd arweinwyr i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wella'r lefelau cyllido naill ai drwy gynyddu cyllid RSG neu grantiau penodol. Dywedodd yr ymateb na fydd cynghorau'n gallu bodloni'r holl ddisgwyliadau a osodir arnynt heb gyllid ychwanegol ac y bydd hyn yn y pen draw yn effeithio'n negyddol ar ddinasyddion ac asiantaethau partner. Byddai mynd i'r afael â'r pwysau gofal cymdeithasol sylweddol sy'n deillio o alwadau cynyddol a mwy cymhleth yn ategu'r cyllid iechyd ychwanegol wrth leihau rhestrau aros, lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal a helpu'r system iechyd i weithredu'n fwy effeithlon ac effeithiol.

Roedd yr ymateb yn ceisio gwell eglurder a chadarnhad o'r holl grantiau penodol ac yn gofyn am godiad i grantiau sy'n ariannu pwysau sylweddol ar y gweithlu. Ceisiodd lythyr o ‘gysur’ ar y mater Yswiriant Gwladol yn nodi'r isafswm y byddai cyfran Barnett yn ei ddarparu. Cododd bryder sylweddol ynghylch y costau ychwanegol sy'n deillio o'r newidiadau i Yswiriant Gwladol ar wasanaethau a gomisiynir a'r effaith ar gyllidebau os na chaiff cyllid ychwanegol ei ddarparu i dalu'r costau hyn.

Gofynnodd yr ymateb am gyllid refeniw ychwanegol o £10m ar gyfer menter benthyca llywodraeth leol ar gyfer Priffyrdd, gan alluogi benthyca uwch o hyd at £120m.

Cofnododd yr ymateb diolch am gymorth ac ymgysylltiad parhaus ac anogodd yr Ysgrifennydd Cabinet i roi ystyriaeth ddifrifol i gyllid gwaelodol sylweddol.

**Cyngor Sir Fynwy**

Croesawodd y Cyngor y cynnydd cyfartalog o 4.3% yn y setliad llywodraeth leol ar gyfer 2025-26 a oedd yn sylweddol well na'r disgwyl yn dilyn cyllideb flaenorol Llywodraeth y DU.

Nododd yr ymateb nad oedd cyllid Llywodraeth Cymru yn ddigonol i fodloni'r holl bwysau sy'n wynebu'r awdurdodau lleol. Roedd y Cyngor yn wynebu dewisiadau lleol anodd wrth bennu ei gyllideb ar gyfer 2025-26. Hon oedd y drydedd flwyddyn yn olynol lle'r oedd y Cyngor yn wynebu pwysau o dros £20m. Roedd ei gynigion ar y gyllideb ddrafft yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a diogelu'r rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, gan gynyddu cyllid ar gyfer gofal cymdeithasol ac iechyd 10.6% ac ar gyfer Addysg 10.7%. Croesawodd gyllid parhaus Llywodraeth Cymru ar gyfer cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, a oedd yn helpu aelwydydd incwm isel ac aelwydydd agored i niwed i dalu eu treth gyngor.

Y cynnydd ariannol o 2.6% i'r Cyngor yn y setliad dros dro oedd yr isaf yng Nghymru, gan waethygu'r pwysau ariannol arno. Byddai'r Cyngor yn croesawu cymorth ychwanegol drwy gyllido gwaelodol neu fecanweithiau eraill o'r fath yn y gyllideb derfynol i liniaru effaith bellach ar wasanaethau i fynd i'r afael â bwlch o £2.9m yn y gyllideb.

Roedd y Cyngor yn ddiolchgar am flaenoriaethu gwasanaethau cyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac ar gyfer 2025-26. Er ei fod yn optimistaidd am y dyfodol, mae risg glir yn parhau o ran gostyngiadau pellach mewn cyllid cyhoeddus yn y tymor real wrth i bryderon ynghylch twf economaidd a sefydlogrwydd barhau yn fyd-eang ac yn y DU.

Roedd y Cyngor yn ystyried codi'r dreth gyngor yn 2025-26 er mwyn osgoi effeithiau ar ofal cymdeithasol, ysgolion a gwasanaethau rheng flaen. Ei dibyniaeth ar y dreth gyngor i ariannu ei wasanaethau oedd yr uchaf yng Nghymru. Nid oedd yn hawdd taro'r cydbwysedd cywir rhwng codiadau'r dreth gyngor a lleihau'r gwasanaethau sy'n cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed.

Roedd y Cyngor yn gobeithio am gyllideb setliad llywodraeth leol ddangosol amlflwyddyn fel rhan o'r gyllideb nesaf er mwyn hwyluso cynllunio ariannol tymor canolig. Pwysodd yr Aelodau am gyflwyno achos cryf i Lywodraeth y DU o blaid dosbarthu cyllid teg gyda chymorth pellach a pharhaus i awdurdodau lleol a gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Fel awdurdod gwledig, roedd y Cyngor yn wynebu heriau ym maes gofal cymdeithasol, casglu gwastraff, trafnidiaeth a phriffyrdd ar draws ardal eang. Roedd yn ceisio cadw gwasanaethau lleol hygyrch i frwydro yn erbyn ynysigrwydd gwledig. Gofynnodd y Cyngor am system decach ar gyfer cyllido a oedd yn cydnabod yr heriau oedd yn wynebu siroedd â chymunedau gwledig ac oedrannus sylweddol wrth ddarparu gwasanaethau ar draws daearyddiaeth amrywiol a lle'r oedd amgylchiadau cylch bywyd yn arwain at alw sy'n cael effaith anghymesur ar wasanaethau.

Roedd gan Sir Fynwy, gyda chynghorau eraill, lefelau isel iawn o gronfeydd wrth gefn a dylid cymryd hyn i ystyriaeth wrth ddosbarthu neu ddyrannu grantiau penodol.

Nododd yr ymateb effaith y newid i'r cyfraddau a'r trothwyon ar gyfer Cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o 1 Ebrill 2025 a bod disgwyl cyllid ar gyfer Llywodraeth Cymru mewn ymateb. Tybiaeth fodelu bresennol y Cyngor fel rhan o'i gynigion ar y gyllideb ddrafft, oedd y byddai effaith uniongyrchol y cynnydd mewn Cyfraniadau Yswiriant Gwladol ar gostau a gwasanaethau staff yn cael ei hariannu 100%. Roedd hyn yn parhau i fod yn risg i gyllideb y Cyngor o ran yr effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol drwy wasanaethau a gomisiynwyd. Gofynnodd fod sylwadau cadarn yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth y DU i sicrhau bod cyllid llawn yn cael ei ddarparu fel na fyddai unrhyw effaith bellach ar gyllid y sector cyhoeddus.

Nododd y Cyngor heriau parhaus o ran diwallu anghenion y bobl fwyaf agored i niwed yn wyneb lefelau uchel o alw a chymhlethdod y galw, a phwysau sylweddol ar y gweithlu. Roedd yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Iechyd i ymateb i'r her 50 diwrnod i gefnogi mwy o bobl i ddychwelyd adref o'r ysbyty yn ddiogel ac i leddfu pwysau'r gaeaf ar eu system iechyd a gofal cymdeithasol. Dylid cydnabod y straen yr oedd hyn yn ei roi ar ofal cymdeithasol a chyllid y cyngor yn ehangach.

Anogodd Lywodraeth Cymru i lunio cynllun wedi'i ariannu'n llawn ar gyfer gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac i weithio gyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod y cyllid angenrheidiol yn cael ei ddarparu.

Er bod yr ymateb yn cydnabod bod y Gweinidogion wedi gwrando ar geisiadau i gynyddu'r cap wythnosol ar gyfer gofal amhreswyl o £100 i £120, mynegodd yr ymateb siom ynghylch y penderfyniad i beidio â rhoi unrhyw newid ar waith. Gofynnodd fod mecanweithiau'n cael eu hailystyried i ganiatáu i'r cap gael ei gynyddu'n flynyddol yn unol â chwyddiant gyda mecanweithiau diogelwch ar waith drwy asesiad ariannol i'r oedolion agored i niwed hynny sy'n derbyn gofal.

Nododd yr ymateb fod yr achos busnes dros system Gofal Cymdeithasol Cysylltu Gofal i ddisodli'r system Cyfarwyddwr Gofal yn deillio o bartneriaeth ar draws llywodraeth leol a phartneriaid. Gofynnwyd am eglurhad ar y cyllid a'r cyfraniad ariannol i gefnogi'r awdurdodau lleol. Galwodd am gamau gweithredu i sicrhau parhad gwasanaethau gofal cymdeithasol, cymeradwyaeth frys Llywodraeth Cymru a chymorth ariannol sylweddol.

Roedd ymateb y Cyngor o blaid agenda bolisi "Dileu" gyda'r nod o ddileu elw o'r farchnad plant mewn gofal i wella eu canlyniadau. Roedd yn croesawu'r cadarnhad o gyllid grant penodol ar gyfer 2025-26. Er hynny, roedd ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol yn destun pryder. Gofynnodd fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod y cymorth parhaus y mae ei angen er mwyn i'r awdurdodau lleol hwyluso'r pontio.

Nododd yr ymateb fod ADY yn dal yn faes o bwysau sylweddol yr oedd y Cyngor yn buddsoddi ynddo. Roedd balansau ysgolion wedi bod yn dirywio'n sylweddol ar draws Sir Fynwy, ar adeg pan fo ysgolion yn wynebu heriau sylweddol wrth gyflwyno'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn ogystal â gwella safonau a chefnogi dysgwyr agored i niwed. Roedd yr ymateb yn gofyn am gymorth parhaus gan Lywodraeth Cymru i ysgolion drwy gyllid y setliad craidd a grantiau penodol yn y dyfodol.

Roedd y Cyngor yn ymgorffori newid hinsawdd ac argyfwng natur yn ei holl waith. Nododd y Cyngor y cynnydd yn y grant gwres carbon isel ond hefyd y lefel sylweddol o gyllid y mae ei angen i gefnogi ac ysgogi'r cyfnod pontio i sero net. Gofynnodd y

Cyngor i Lywodraeth Cymru bwyso ar Lywodraeth y DU am gyllid i ganiatáu i'r sector cyhoeddus wneud y gwaith pontio angenrheidiol a chefnogi cymunedau a busnesau i wneud yr un peth.

Croesawyd y cynnydd mewn cyllid cyfalaf ar gyfer 2025-26 yn ogystal â'r £5m o gyllid refeniw i gefnogi gwariant ar gynnal a chadw priffyrdd. Mynegodd yr ymateb bryder ynghylch effaith cyfyngiadau cyllid cyfalaf ar eu hasedau seilwaith. Roedd yr angen i ymateb i bwysau cyfalaf sylweddol cynyddol heb eu hariannu, gan gynnwys stormydd, yn cyfyngu ar ei allu i fuddsoddi mewn meysydd blaenoriaeth neu i gynnal asedau priffyrdd yn rhagweithiol i'r safon ofynnol. Croesawodd y Cyngor yr ymgysylltiad cadarnhaol mewn perthynas â'r stormydd yn ddiweddar.

Roedd y Cyngor yn cytuno â'r nod o leihau biwrocratiaeth ddiangen drwy symud grantiau i'r setliad. Croesawodd yr ymrwymiad parhaus i leihau gweinyddu ac i wella hyblygrwydd grantiau tra'n cefnogi nodau ac uchelgeisiau polisi cydfuddiannol. Gofynnodd am gael gwybod yn gynnar am y dyfarniad grant i helpu gyda chynllunio'r gyllideb gan grybwyll grant sylweddol a oedd heb ei gadarnhau eto.

Roedd y Cyngor wedi pennu rhagdybiaethau darbodus ynghylch y dyfarniad cyflog ond oherwydd lefel yr ansicrwydd ar lefel ac amseru, nododd y gallai fod angen rhoi ystyriaeth yn y dyfodol yn ystod y flwyddyn i addasu cyllidebau cyflogau. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru ymgysylltu â chyrff adolygu cyflogau a datgelu'r cynigion cyflog disgwyliedig i'r awdurdodau lleol ymhell cyn pennu'r gyllideb.

Croesawyd y cymorth parhaus i fusnesau drwy gapio'r lluosydd NDR a'r buddsoddiad i gefnogi rhyddhad busnesau manwerthu, hamdden a lletygarwch.

Mynegodd yr ymateb awydd i barhau i weithio'n agos gyda'r Ysgrifennydd Cabinet i sicrhau bod cyllid llywodraeth leol yn cael ei roi ar sylfaen gynaliadwy i ddarparu'r gwasanaethau y mae ar gymunedau eu hangen ac ar nodau cyffredin sef lleihau anghydraddoldeb a thlodi a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur.

**Cyngor Sir Ceredigion**

Nododd ymateb y Cyngor ei fod yn gweld chwyddiant lefel gwasanaethau uwch nag yr oedd mynegeion chwyddiant cenedlaethol yn ei awgrymu. Mae pwysau cost amcangyfrifedig y Cyngor ar gyfer 2025-26 yn cyfateb i ffactor chwyddiant penodol i Geredigion o 6.5%. Yn erbyn y cynnydd o 3.6% yn y setliad dros dro mae hyn yn dangos diffyg ariannol sylweddol o £7.4m i'w ganfod o Ostyngiadau'r Gyllideb a chodiadau yn y Dreth Gyngor.

Nododd yr ymateb yr ystod o godiadau o 2.6% hyd at 5.6% a dywedodd fod awdurdodau llai a/neu fwy gwledig yn wynebu heriau.  Gofynnodd am gyllid gwaelodol o 4.3%.  Byddai hyn yn costio £18m ac yn caniatáu i drigolion y cyngor dalu tua 2% yn llai yn y Dreth Gyngor nag a fyddai'n wir fel arall. Gofynnodd fod y penderfyniad yn cael ei gyfleu cyn gynted â phosibl er mwyn hwyluso cynllunio amserol.

Dywedodd ymateb y Cyngor fod y Setliad blynyddol wedi'i ogwyddo fwyfwy yn erbyn awdurdodau llai a/neu fwy gwledig er budd awdurdodau mwy a/neu fwy trefol. Roedd yn ystyried bod achos dros gyllid gwaelodol a therfyn uchaf ar gyfer cyllido. Gofynnodd fod ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i sut y mae awdurdodau llai a/neu fwy gwledig yn cael eu hariannu i sicrhau bod cyllid yn cael ei ddosbarthu yn decach ledled Cymru.

Cyfeiriodd ymateb y Cyngor at y setiau data poblogaeth a ddefnyddiwyd yn setliad a'r diffyg cyllid gwaelodol yn 2021-22 a 2202-23 pan gafodd y Cyngor ei raddio'n 22ain a 19eg yn eu trefn.

Roedd y setiau data poblogaeth a ddefnyddiwyd yn golygu bod Ceredigion ar ei cholled o ryw £400k y flwyddyn dros nifer o flynyddoedd, tra oedd awdurdodau lleol eraill ar eu hennill hyd at £3m y flwyddyn dros yr un cyfnod.

Nododd y byddai newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn cael effaith sylweddol ar y gyllideb, a amcangyfrifwyd yn £4m ar gyfer staff a gyflogir yn uniongyrchol. Er ei fod yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar Drysorlys EF am eglurhad a chadarnhad ynghylch cyllid, roedd yn siomedig na fyddai'r sefyllfa ariannol yn hysbys tan rywbryd yn y flwyddyn ariannol 2025-26. Byddai angen i'r Cyngor wneud rhagdybiaethau darbodus ar gyfer amcangyfrif y gyllideb. Cafodd sicrwydd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid llawn ar gyfer codiadau i gyfradd cyfraniad SCAPE Cyflogwyr a gofynnodd am gymorth tebyg ar gyfer costau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr Amcangyfrifwyd bod cost o £1m i'r Cyngor ar gyfer Darparwyr y Sector Gofal Cymdeithasol a oedd yn dibynnu'n bennaf ar godiadau a ddarparwyd gan y Cyngor. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru ddarparu cyllid llawn ar gyfer pob agwedd ar godiadau costau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr gan gynnwys i Ddarparwyr yn y sector Gofal Cymdeithasol hanfodol.

Gofynnodd ymateb y Cyngor y dylid ystyried gwneud Awdurdodau Tân yng Nghymru sy'n codi praesept yn hytrach na chyrff sy'n codi ardoll yn yr un modd ag Awdurdodau'r Heddlu a Chynghorau Tref a Chymuned. Byddai hynny'n gliriach i'r trigolion.

Roedd yr ymateb yn nodi her proses flynyddol dyfarniadau cyflog NJC mewn perthynas ag amseru ac ansicrwydd. Gofynnodd a oedd hyn yn dal i fod yn addas i'r diben neu a fyddai o fudd i Gymru sefydlu mecanweithiau ar wahân gan gynnwys ystyried strwythur tâl safonedig ar wahân ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Nododd yr ymateb drafodaethau parhaus ar Strwythur annibynnol posibl ar gyfer Tâl Gofal Cymdeithasol er mwyn lleihau cystadleuaeth rhwng yr Awdurdodau Lleol a gosod tâl Gofal Cymdeithasol ar sail fwy cadarn yng Nghymru. Cefnogir y dyhead cyffredinol ar yr amod y byddai'n cael ei ariannu'n llawn. Roedd ymrwymiad i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i Weithwyr Gofal Cymdeithasol Cofrestredig yng Nghymru, ond roedd y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cynyddu 6% o Ebrill 2025 yn erbyn cynnydd o 3.6% yn y Setliad dros dro. Gofynnodd am gyllid ychwanegol i dalu cost lawn yr ymrwymiad hwn.

Croesawodd y Cyngor y cynnydd mewn cyllid cyfalaf cyffredinol a'r buddsoddiad ychwanegol arfaethedig o £60m ar gyfer Priffyrdd drwy Fenter Benthyca Llywodraeth Leol ar gyfer 2025-26. Serch hynny roedd cyllid cyfalaf yn dal yn is nag oedd yn 2008-09, ac eithrio effaith chwyddiant. Gofynnodd fod cyllid cyfalaf yn parhau i gael ei flaenoriaethu fel bod y buddsoddiad hwn yn cael ei gynnal ac nad buddsoddiad unwaith yn unig ydyw.

Nododd y byddai ystod o grantiau penodol yn cael eu heffeithio gan ddyfarniadau cyflog a chynnydd yng nghostau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr yn ogystal â chwyddiant cyffredinol ac na fyddai'r rhain yn ddigonol i gyflawni'r un canlyniadau oni bai eu bod yn cynyddu. Dywedodd fod angen cymryd hyn i ystyriaeth ar gyfer cyfradd uned ddiwygiedig ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim mewn Ysgolion Cynradd ar gyfer 2025-26. Dylai'r gyfradd gael ei hadolygu'n flynyddol er mwyn atal y polisi

cenedlaethol hwn gan Lywodraeth Cymru rhag dod yn faich ar drethdalwyr lleol Ceredigion.

Nododd y Cyngor effaith tueddiadau demograffig - poblogaeth sy'n heneiddio (pobl sydd wedi ymddeol a heneiddio naturiol) ynghyd â llai o ddisgyblion Ysgol Gynradd, sy'n deillio o ostyngiad yn y gyfradd genedigaethau. Dywedodd nad oedd fformiwla ariannu'r Setliad yn adlewyrchu'r ffactorau hyn yn ddigonol yn enwedig mewn ardal wledig yn y pwysoliadau ar gyfer darparu gwasanaethau megis Gofal Cartref. Yn yr un modd, dywedodd fod y canllawiau ar gau ysgolion gwledig yn gosod safon uchel ar gyfer cau ysgolion nad oedd yn cael ei hadlewyrchu'n briodol yn nosbarthiad y setliad. Gofynnodd am gyllid digonol ac ychwanegol ar gyfer awdurdodau a oedd yn wynebu her ddeuol poblogaeth sy'n heneiddio a gweithredu ysgolion bach mewn ardal wledig.

Roedd yr ymateb yn nodi nifer o heriau cenedlaethol yr oedd angen buddsoddi ynddynt o ffrydiau cyllido cenedlaethol:

- Cartrefi Gofal Preswyl sydd ym mherchnogaeth yr awdurdodau lleol - i sicrhau bod cyfleusterau'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Diogelwch tân - mae angen gwelliannau oherwydd oedran adeiladau awdurdodau lleol.
- Buddsoddi mewn Systemau TGCh Gofal Cymdeithasol i ddisodli system WCCIS flaenorol.
- UKSPF - er i'r cyllid trosiannol ychwanegol ar gyfer 2025-26 groesawu, ni chroesawwyd y gostyngiad o 43% ar gyfer Canolbarth Cymru. Dylid rhoi ystyriaeth bellach i'r fethodoleg ddyrannu.
- Ariannu Cynnal a Chadw Cyfalaf Ysgolion – croesawyd y grant gan gynnwys codiadau yn ystod y flwyddyn. Gofynnodd yr ymateb fod hyn yn parhau tan 2025-26 a'r tu hwnt.

Nododd yr ymateb faich ychwanegol Cyd-bwyllgorau Corfforedig, er enghraifft costau'r gorbenion cyffredinol ynghyd â chostau Cynlluniau Datblygu Strategol Rhanbarthol a Chynlluniau Trafnidiaeth Rhanbarthol. Gofynnodd am adolygiad gan Lywodraeth Cymru i leihau'r baich ar yr awdurdodau lleol o ran Cyd-bwyllgorau Corfforedig ac i sicrhau bod yr holl gostau a godir yn cael eu hariannu'n llawn ar lefel o 100%.

**Cyngor Bro Morgannwg**

Nododd yr ymateb fod y setliad drafft yn setliad ar y sefyllfa a ragwelir ond ei fod yn dod yn erbyn cefndir o ddisgwyliadau cyhoeddus a gwleidyddol uwch yn dilyn Cyllideb y DU a symiau canlyniadol o £1.7biliwn i Gymru. Roedd yn croesawu'r £253m ychwanegol i'r Setliad ond nododd fod hyn yn brin o'r pwysau o £559m a wynebir gan gynghorau Cymru ac nad oedd yn cynnwys effaith y cynnydd mewn Yswiriant Gwladol ar wasanaethau sy'n cael eu caffael.

Gan nodi bod niferoedd cynyddol o breswylwyr yn dibynnu ar y cyngor am waith a mynediad at wasanaethau, gofynnodd y Cyngor fod adnoddau ychwanegol yn cael eu sicrhau ar gyfer Setliad 2025-26. Gofynnodd am gyllid gwaelodol o 4.3% yn ddelfrydol a ddylai gynyddu os oes cyllid ychwanegol ar gyfer y setliad yn gyffredinol.

Mynegodd y Cyngor bryder ynghylch targedu adnoddau drwy'r Asesiad o Wariant Safonol ac roedd o blaid adolygu'r fformiwla. Nododd ei bod yn hen bryd diwygio ac adolygu'r fformiwla ysgolion, yn enwedig y pwysoliad o tua 9% a roddwyd i brydau ysgol am ddim mewn IBAs Cynradd ac Uwchradd. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru

gwblhau'r adolygiad o'r model cyllido ysgolion ac ystyried yr anghydbwysedd daearyddol a oedd yn bodoli gan fod llawer o'r costau sylfaenol yn unffurf ledled Cymru. Yn yr un modd mewn perthynas â'r Asesiadau o Wariant Safonol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.  Roedd y cynnydd blaenorol yn y cap gofal wedi bod yn annigonol dros amser gan fod costau blynyddol y Fro yn fwy o ganlyniad i gyfansoddiad demograffig gyda nifer uchel yn gyfrannol o breswylwyr oedrannus a'r rhai a oedd yn gefnog ac hunan-ariannu yn gyfforddus.

Nododd fod y fformiwla ariannu yn colli mwy o hygrededd os nad yw'n cael ei hadolygu. Yn dilyn adolygu a diwygio elfen Digartrefedd yr SSA ar gyfer Gwasanaethau Eraill roedd rhai ar eu hennill a rhai ar eu colled ac roedd yn briodol bwrw ymlaen yn hyn o beth. Mae hyn yn darparu cynsail ar gyfer newid hyd yn oed os nad yw'r canlyniad yn cael ei groesawu gan bawb.

Nododd fod cynnydd bach iawn i'r Cyngor yn yr SSA ar gyfer Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor, yn erbyn ei gostau ei hun yn erbyn y cynllun cenedlaethol yn fwy na £12m gydag SSA o £9.3m. Mae anghysondeb yn bodoli, felly, yn achos y swm i roi'r cynllun ar waith yn genedlaethol a'r gost yn lleol i'w gyflawni.

Dywedodd yr ymateb fod tybiaethau'r Dreth Gyngor yn cael effaith andwyol ac annheg ar y Cyngor a'r cynnydd tybiedig o 10.4% yng nghyfrifiad yr AEF. Cyfran dreth y Cyngor o SSA oedd yn ail yng Nghymru a chyda thwf o 0.70% yn erbyn cyfartaledd Cymru o 0.45%, mae'n gwneud rhagdybiaeth afresymol iawn ynghylch ei bwerau i godi'r dreth gyngor ar gyfer 2025-26. Mae wedi modelu cynnydd o 6.9% yn ei Gyllideb ar gyfer Ymgynghori ac yn wyneb y llu o bwysau ariannol y mae eu trigolion yn eu hwynebu, teimlir bod hyn eisoes braidd yn  uchel.

**Cyngor Sir Penfro**

Roedd y Cyngor yn pryderu am ddigonolrwydd y setliad wrth fynd i'r afael â'r galwadau acíwt a chynyddol sy'n wynebu'r awdurdodau lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig megis Sir Benfro lle'r yr effeithir ar ardaloedd allweddol. Mae'r pwysau ar ei wasanaethau gofal cymdeithasol yn parhau i gynyddu ac mae hyn yn cael ei sbarduno gan dueddiadau demograffig a chymhlethdod cynyddol anghenion. Roedd ei boblogaeth sy'n heneiddio, gyda chynnydd rhagamcanol o 33% mewn trigolion 85+ oed erbyn 2030, ymhlith yr uchaf yng Nghymru ac wedi cyfrannu at alw parhaus am wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.  Roedd galwadau ar ofal cymdeithasol plant yn cynyddu oherwydd achosion mwy cymhleth, gan gynnwys lleoliadau argyfwng ac arbenigol. Roedd hyn yn cyd-fynd â chanfyddiadau cenedlaethol, megis Adroddiad Blynyddol Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol Cymru, a dynnodd sylw at bwysau cynyddol ar systemau diogelu.

Nid adlewyrchwyd y galw ychwanegol ar ofal cymdeithasol mewn cyllid ychwanegol o fewn y fformiwla gyllido. Roedd o'r farn ei fod yn bwydo i mewn i addasiad ym maint cyffredinol IBA ar gyfer pob cyngor. O'r herwydd nid yw'r rhai â llwythi achosion uchel penodol o'i gymharu â demograffeg gyffredinol y boblogaeth yn cael cyllid digonol i'w cefnogi, tra oedd y rhai â llwythi achosion is yn cael cyllid digonol. Heb adnoddau ychwanegol, ni fydd y Cyngor yn gallu cynnal y lefelau statudol gofynnol o ddarpariaeth gwasanaethau gofal cymdeithasol gan gyfaddawdu diogelwch a llesiant eu trigolion agored i niwed.

Roedd natur wledig yr ardal yn gosod heriau sylweddol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae teneurwydd y boblogaeth yn cynyddu costau fesul pen ar gyfer gwasanaethau hanfodol, gan gynnwys addysg, cludiant a gofal cymdeithasol. Roedd daearyddiaeth ei ardal yn ymestyn amseroedd teithio ac felly'r

gost weithredol ar gyfer gofal cartref ac ymateb mewn argyfwng. Roedd ysgolion gwledig yn wynebu costau uwch fesul disgybl oherwydd maint dosbarthiadau llai a'r angen i gynnal cyfleusterau ar draws cymunedau gwasgaredig.

Anogodd y Cyngor Lywodraeth Cymru i gydnabod heriau gwledig drwy ymgorffori ffactor gwledigrwydd cadarn yn y fformiwla gyllido gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n deg. Mae'r fformiwla bresennol yn defnyddio cymysgedd o setiau data gwasgariad hen ffasiwn o 1991 neu 2001. Er mai dim ond elfen fach o'r cyllid cyffredinol yw'r rhain, roedd angen diweddaru'r setiau data i gynrychioli gwledigrwydd y gwasanaethau y mae angen eu darparu yn Sir Benfro a siroedd tebyg eraill yn well.

Roedd y Cyngor yn gweld pocedi o amddifadedd difrifol a oedd yn effeithio'n sylweddol ar iechyd, addysg a chyfleoedd economaidd trigolion. Mae ei bwyntiau data allweddol yn cynnwys dibyniaeth uwch na'r cyfartaledd ar raglenni lles cymdeithasol a wnaed yn waeth gan yr argyfwng costau byw, lefelau uchel o dlodi tanwydd oherwydd dibyniaeth ar olew a mynediad cyfyngedig at ffynonellau ynni amgen. Roedd cyllid wedi'i dargedu yn hanfodol i liniaru'r gwahaniaethau hyn a darparu cymorth i boblogaethau agored i niwed.

Roedd digartrefedd yn dal yn destun pryder allweddol wrth i gostau llety dros dro barhau i fod yn fwy na'r cyllid grant a oedd ar gael. Mae gan y Cyngor nifer uchel o bobl mewn lleoliadau tai dros dro sy'n adlewyrchu'r galw mawr am dai fforddiadwy. Galwodd am fwy o gyllid i gefnogi mesurau ataliol ac ehangu stoc tai fforddiadwy. Dylai'r grant “Neb Heb Help” gyd-fynd â'r galw gwirioneddol i sicrhau ei gynaliadwyedd.

Roedd gwasanaethau addysg yn wynebu pwysau ariannol digynsail gyda heriau ar ôl y pandemig yn dwysáu'r angen am gymorth.  Roedd y cynnydd yn y galw am wasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a chymorth iechyd meddwl wedi gwasgu cyllidebau ysgolion i'r eithaf. Roedd hyfywedd ysgolion bach yn dal yn fater o bwys a oedd yn gofyn am ymagwedd gytbwys gan gymryd anghenion y gymuned a chynaliadwyedd ariannol i ystyriaeth. Argymhellodd fod angen cynnydd yn y cyllid craidd ar gyfer addysg.

Croesawodd gadarnhad Trysorlys y DU y byddai cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu i adlewyrchu effaith y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr staff y sector cyhoeddus. Mae effaith darparwyr gwasanaethau eraill a'r trydydd sector ar ei gyllideb yn £2m.  Gofynnodd fod Llywodraeth y DU yn cael ei lobïo i ddarparu cyllid ychwanegol ar gyfer hyn.

Nid oedd y setliad yn adlewyrchu'n ddigonol yr heriau unigryw yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu.  Argymhellodd fod y dyraniadau gofal cymdeithasol a digartrefedd yn adlewyrchu'r galw gwirioneddol, tueddiadau demograffig a chymhlethdod yr angen. Roedd angen ailedrych ar y fformiwla ar gyfer gwledigrwydd ac amddifadedd fel ffactorau allweddol gydag eglurder yn cael ei ddarparu ar gyllid tymor hir i hwyluso cynllunio ariannol tymor canolig effeithiol.

Nododd yr ymateb fod Hyrwyddwyr y Gymraeg ymhlith ei Aelodau a'i Swyddogion yn arwain ar waith yn Sir Benfro er mwyn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau na chaiff y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo o hyd i gydweithio â Llywodraeth Cymru a CLlLC i sicrhau bod yr awdurdodau lleol yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol a chyflawni rhwymedigaethau statudol. Er hynny, heb godiad cyllid, roedd yn wynebu

penderfyniadau anodd ynghylch darparu gwasanaethau dewisol a lefel y ddarpariaeth gwasanaethau statudol.

**Cyngor Sir y Fflint**

Roedd ymateb Cyngor Sir y Fflint yn cydnabod yr heriau ariannol sy'n wynebu pawb a byddai'n parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru i gyflwyno sylwadau ar gyfer setliad gwell a theg. Fel cyngor sy'n cael lefel isel o gyllid y pen, dywedodd ei fod mewn sefyllfa fregus iawn yn dilyn degawd o gyllidebau cenedlaethol gostyngol. I'r gwrthwyneb, pe bai'n derbyn yr un swm setliad y pen ag un o'i Gynghorau cyfagos, byddai'n cael £71m yn ychwanegol y flwyddyn. Roedd hyn yn awgrymu bod problemau sylfaenol gyda'r fformiwla gyllido bresennol ac nad oedd ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i'r boblogaeth. Er mai'r cyngor oedd y 6ed mwyaf o ran poblogaeth, roedd yn dal i fod yn safle 19 allan o'r 22 o Gynghorau Cymru yn y newid blynyddol. Nid ystyriwyd bod y fformiwla gyllido yn addas i'r diben. Nid oedd yn adlewyrchu'r cymhlethdod a'r gofynion sy'n cael eu rhoi ar wasanaethau lleol. Roedd y Cyngor yn derbyn bod swm yr arian a drosglwyddwyd Lywodraeth Cymru wedi lleihau'n sylweddol sydd, yn ei dro, yn effeithio ar swm y fformiwla ond roedd angen dod o hyd i fecanwaith tecach i ailddosbarthu'r cyllid hwn i wasanaethau ac yn y pen draw i gymunedau.

Cyfeiriodd at waith caled i ddileu dros 50% o gyllidebau corfforaethol a gwasanaethau tra'n parhau i ddiogelu holl feysydd Cyllidebau Ysgolion Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg. Ers 2008-09 roedd wedi torri tua £125m o'i gyllideb. Erbyn hyn nid oedd dim byd sylweddol ar ôl i'w dorri. Bydd setliadau pellach nad oeddent yn bodloni effeithiau'r galw cynyddol am wasanaethau, yn enwedig mewn meysydd megis gofal cymdeithasol, yn ei adael gydag un opsiwn yn unig sef rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau neu wynebu'r risg o fod yn destun hysbysiad A114.

Roedd yr ymateb yn gofyn bod Setliadau yn bodloni effeithiau meysydd polisi / deddfwriaeth heb eu hariannu sydd wedi creu pwysau cost anghynaliadwy, e.e. Anghenion Dysgu Ychwanegol, yr agenda nid-er-elw, digartrefedd a thrafnidiaeth ysgol.

Cadarnhaodd adroddiad diweddar Archwilio Cymru ar Gynaliadwyedd Ariannol fod ganddo lefelau cymharol isel o gronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi gan ei wneud yn fwy agored i amrywiadau sylweddol i'r gyllideb sy'n deillio o alw cynyddol am wasanaethau a dyfarniadau cyflog sydd wedi'u negodi'n genedlaethol. Ei ddiffyg presennol oedd y mwyaf ers iddo gael ei ffurfio yn 1996. Roedd yn ymddangos bod y duedd hon yn parhau er gwaethaf disgyblaethau rheoli ariannol. Roedd adroddiad cynharach ar ei Gynaliadwyedd Ariannol wedi nodi ymagwedd gref at gynllunio ariannol a strategaeth ariannol glir dros y tymor canolig. Roedd yr ymagwedd hon wedi cael ei chynnal. Nid oedd ei heriau cyllidebol yn cael eu hachosi gan fethiant neu ddiffyg gweithredu lleol, ond gan ddiffyg cyllid sy'n gwaethygu.

Nododd yr ymateb fod y codiad i'r AEF yn fwy cadarnhaol na'r disgwyl. Er hynny, roedd y cynnydd o 3.27% yn y setliad dros dro yn siom gan ei adael 1% yn is na chyfartaledd Cymru a 2.3% yn llai na'r codiad uchaf, gyda phob 1% yn cyfateb i ryw £2.6m i'r Cyngor. Roedd yn ceisio cynnydd sylweddol mewn dyraniad AEF drwy'r mecanwaith Cyllido Gwaelodol er mwyn osgoi cynnydd sylweddol mewn trethiant lleol. Roedd yn amcangyfrif y byddai angen cynnydd o 7% o ffigur ei setliad dros dro o 3.27%.

Gofynnodd yr ymateb am eglurder ynghylch ariannu'r newid i gostau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr a fyddai'n costio £4.189m ychwanegol i'r Cyngor. Roedd yn tybio

y byddai hyn yn cael ei ariannu'n llawn gan Drysorlys Ei Fawrhydi ond byddai'n croesawu eglurder os na chaiff Llywodraeth Cymru ddigon drwy gyfran Barnett. Mynegodd bryder am y costau Yswiriant Gwladol ychwanegol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir gan y byddai'n faich ychwanegol sylweddol ar ei gyllideb pe bai disgwyl i gynghorau ddarparu cyllid ychwanegol i dalu am hyn.

Ceisiodd eglurder a chadarnhad ar bob grant penodol ar y cyfle cyntaf gan nad oes rhai wedi'u cadarnhau eto ac maent yn hanfodol ar gyfer darparu gwasanaethau. Gofynnodd am gadarnhad cynnar o unrhyw gyllid refeniw ychwanegol ar gyfer menter benthyca llywodraeth leol ar gyfer priffyrdd i ryddhau cyllid cyfalaf ychwanegol y mae ei fawr ei angen i fynd i'r afael â materion sylweddol gyda'i rwydwaith priffyrdd.

Dangosodd adborth o ymgynghoriad a gynhaliwyd ganddynt mai'r gwasanaethau pwysicaf i'r rhai yn eu cymunedau oedd Priffyrdd, Gwastraff ac Ailgylchu, Addysg, Gwasanaethau Cymdeithasol Plant a Phlant a Theuluoedd. Roedd ei ddinasyddion yn dymuno gweld cyllid tecach gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Sir y Fflint. Gofynnodd am setliadau cyllid tymor hwy i alluogi'r Cyngor i gynllunio gyda mwy o sicrwydd.

**Cyngor Sir Powys**

Nododd yr ymateb sefyllfa ariannol heriol i Lywodraeth Leol. Roedd Powys yn wynebu galw cynyddol am wasanaethau, ynghyd â chostau cynyddol ym mhob maes gan ychwanegu pwysau ariannol o fwy na £36 miliwn at ei chyllideb ar gyfer 2025-26, sef cynnydd o dros 10%. Nododd mai ei chynnydd o 3.3% yn y setliad oedd y trydydd isaf ar draws Cymru ac yn is na'r cynnydd cyfartalog o 4.3%. Roedd y lefel hon o gynnydd yn brin o'r hyn yr oedd ei angen i gynnal gwasanaethau statudol, gyda'r risg o ostyngiadau sylweddol mewn gwasanaethau a chynnydd sylweddol yn y Dreth Gyngor.

Roedd yr ymateb yn croesawu gwneud  cymorth ariannol ychwanegol 2024-25 yn llinell sylfaen a oedd wedi bod yn hanfodol i gefnogi ei gynlluniau.

Roedd yn cydnabod y pwysau sylweddol ar y cyhoedd a'r angen am benderfyniadau caled ond gofynnodd fod cyllid gwaelodol sylweddol yn cael ei ddarparu yn y r setliad terfynol.  Anogwyd y Gweinidog i ystyried hyn yn flaenoriaeth. Roedd hyn yn hanfodol er mwyn iddo reoli lefel y risg yn ei gyllideb a helpu i gyfyngu ar y gostyngiad mewn gwasanaethau.

Roedd y cyngor unwaith eto wedi nodi arbedion o £12m i'w cyflawni yn ystod 2025-26 sy'n ychwanegol at gyflawni gostyngiadau o fwy na £100m mewn costau dros y degawd diwethaf. Roedd yr arbedion a gynigiwyd ynghyd â'r setliad, yn gadael bwlch yn y gyllideb o £9.8m gyda chynnydd arfaethedig o 8.9% yn y Dreth Gyngor i gydbwyso'r gyllideb.

Roedd ei gynllun cyllidebol wedi defnyddio rhai mesurau tymor byr a fyddai'n cefnogi'r gyllideb am flwyddyn yn unig. Roedd dros £10m o gostau posibl y tu allan i'r cynllun cyllidebol. Roedd hyn yn golygu tynnu symiau sylweddol o bosibl ar gronfeydd wrth gefn.  Roedd cronfeydd refeniw wrth gefn y Cyngor yn fach iawn o'u cymharu ag awdurdodau eraill ledled Cymru a'i nod oedd cynnal ei gronfa gyffredinol yn uwch na 4%.

Roedd gan y Cyngor Sylfaen Dreth Gyngor gyfrannol fwy gan gynhyrchu mwy na 30% o'i gyllid. Roedd yr economi leol yn talu cyflogau cymharol isel ac nid oedd Sylfaen dybiannol y Dreth Gyngor yn adlewyrchu gallu'r trigolion i dalu. Roedd dros

4,000 o deuluoedd yn byw mewn tlodi absoliwt ac roedd 31% ohonynt yn aelwydydd rhiant unigol (2019-20). Yn 2024, roedd gweithwyr llawn amser Powys yn ennill £675 yr wythnos, o'i gymharu â chyfartaledd Cymru o £684 a chyfartaledd y DU o £728. Roedd y Dreth Gyngor wedi cynyddu 33% dros y 6 blynedd diwethaf er mwyn darparu cyllidebau cytbwys. Roedd hyn yn gyfaddawd anodd rhwng effaith codiadau ar drigolion a darparu gwasanaethau.

Roedd yr ymateb yn nodi heriau awdurdod gwledig gan fod llawer o gostau gwasanaeth yn fwy oherwydd teithio a darparu gwasanaethau i gymunedau llai a gwasgaredig. Cododd heriau pellach oherwydd prinder staff ar gyfer gwasanaethau mewnol a gwasanaethau a gomisiynwyd mewn ardal â phoblogaeth oedran gweithio isel. Gofynnodd a oedd y fformiwla gyllido yn cymryd yr heriau hyn i ystyriaeth yn briodol gan nodi bod awdurdodau gwledig eraill yn mynd i dderbyn llai na'r cynnydd cyfartalog mewn cyllid.

Roedd y Cyngor wedi blaenoriaethu gwariant Addysg a Gofal Cymdeithasol yn uwch na symiau'r Asesiad o Wariant Safonol. Roedd hyn ar draul gwasanaethau eraill a oedd yn destun gostyngiadau uwch yn y gyllideb. Roedd llawer o'r rhain, megis llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, gwasanaethau ieuenctid a gwasanaethau cynghori at yr agenda ataliol ac roeddent yn allweddol i reoli canlyniadau iechyd gan helpu i leddfu'r pwysau'r ar y gwasanaeth iechyd.

Roedd gan heriau gofal cymdeithasol y Cyngor effaith ar y system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach - roedd system GIG gynaliadwy yn dibynnu ar system gofal cymdeithasol a ariennir yn briodol. Roedd y GIG a gofal cymdeithasol yn gweithio'n dda gyda'i gilydd. Roedd y Cyngor yn gweithio'n agos â'r GIG i wella hunanreoli cyflyrau, canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar a gwneud gwell defnydd cydgysylltiedig o wasanaethau gofal cymunedol a sylfaenol. Roedd y mynediad gwell hwn at gymorth cymunedol a chyngor gwybodaeth yn lleihau'r pwysau ar y GIG ond dim ond gyda chyllid priodol y gallai barhau.

Nododd ymateb y Cyngor effaith y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr o fis Ebrill 2025. Croesawodd gadarnhad Llywodraeth y DU o gyllid i'r llywodraethau datganoledig i helpu i liniaru'r gost hon. Ceisiodd eglurder cynnar ar lefel y cymorth ariannol y gallai ei ddisgwyl gan fod hyn yn effeithio ar risg y gyllideb. Roedd gwneud iawn am gostau staff a gyflogir yn uniongyrchol yn gadael costau sylweddol heb eu hariannu wrth i ddarparwyr gwasanaethau nodi cynnydd o 10% i dalu'r costau hyn ynghyd ag effaith y cynnydd yn y Cyflog Byw Gwirioneddol.

Croesawodd yr ymateb gyllid ychwanegol drwy grantiau penodol a cheisiodd wybodaeth fanylach drwy'r Cytundeb Terfynol. Lle nad oedd gwerthoedd grant yn cael eu cynyddu, gellid cyflawni llai o gofio'r cynnydd yn y galw a'r costau. Anogodd y Llywodraeth i barhau i weithio i leihau'r baich gweinyddol ar yr Awdurdodau.

Croesawodd y Cyngor gyllido llawn ar gyfer costau cyflog a phensiwn yr oedd wedi'u dyrannu'n llawn i'w ysgolion. Mae hyn wedi helpu i gefnogi'r cyllid a ddyrannwyd yn llawn drwy'r fformiwla gyllido ysgolion lleol. Gofynnodd fod yr ystyriaeth o'r cytundeb cyflog athrawon arfaethedig yn cymryd lefel y cyllid sydd wedi'i ddyrannu i ystyriaeth.

Nododd y Cyngor y pwysau ar wasanaethau Oedolion a Phlant oherwydd cynnydd yn y galw drwy newidiadau demograffig, cymhlethdod y cymorth, rhwymedigaethau contractiol darparwyr, yr ymrwymiad i'r Cyflog Byw Gwirioneddol a chynyddu cyfraniadau Yswiriant Gwladol. Roedd gan ofal yn nes at y cartref effeithiau cadarnhaol i'w gleientiaid a'i gyllideb ond nid oedd gan y farchnad leol ddigon o gapasiti i fodloni gofynion lleol. Roedd y costau wedi cynyddu fwy na £15 miliwn yn

2025-26. Roedd cynnal y cap gofal o £100 yr wythnos yn lleihau gallu'r Cyngor i godi cyfraniadau digonol gan gleientiaid. Roedd y swm a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru yn brin o'r swm y gallai'r Cyngor fod wedi'i godi gyda chodiadau chwyddiant o flwyddyn i flwyddyn.

Croesawodd y Cyngor yr agenda Dileu Elw mewn Gofal Plant ond nododd heriau wrth recriwtio a chadw staff, darparu gwasanaeth llwyddiannus yn wledig a'r angen am eglurder ar gostau a lefelau elw.

Mynegodd y Cyngor bryder am y diffyg eglurder ynghylch costau gwirioneddol ar draws y sector Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Gofynnodd i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â mater o dangyllido i gartrefi gofal drwy'r cyfraddau Gofal Nyrsio a Ariennir. Gan nad oedd y rhain yn cwmpasu costau iechyd sylfaenol mewn cartrefi gofal, roedd darparwyr yn cynyddu'r cyfraddau a godir ar Gynghorau sy'n lleihau gwerth eu cyllidebau eu hunain.

Nododd y Cyngor fod ei allu i ariannu prosiectau cyfalaf ar raddfa fawr drwy fenthyca wedi lleihau gan fod cyllidebau refeniw yn gorfod talu cyfraddau llog uwch, gan gefnogi costau cyfalaf cynyddol a chostau ailariannu ychwanegol benthyca presennol. Roedd y Cyngor yn rhesymoli adeiladau, yn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf ac yn rhannu asedau gyda phartneriaid. Roedd yn ceisio gwell cyfraddau ymyrraeth ar gyfer grantiau gan Lywodraeth Cymru.

Byddai angen buddsoddiad cyfalaf sylweddol a newid mewn polisïau allweddol a chaffael i fynd i'r afael â'r argyfwng Newid Hinsawdd a lleihau allyriadau carbon i sero erbyn 2030. Oherwydd natur wledig y Sir nid cerbydau trydan oedd yr ateb allweddol a cheisiwyd cefnogaeth ar gyfer dulliau amgen a fyddai'n gweithio'n lleol. Dim ond gydag arian allanol y gellid gwneud cynnydd.

Roedd ei ddyraniad CTRS wedi'i gynnal ar yr un lefel ers blynyddoedd lawer gan Lywodraeth Cymru. Roedd cynnydd yn lefelau'r Dreth Gyngor ac yn galw am y cymorth wedi creu bwlch ariannu o un flwyddyn i'r llall rhwng y cymorth o £13 miliwn y flwyddyn yr oedd y Cyngor yn ei ddarparu a ffigur yr Asesiad o Wariant Safonol o £8.9 miliwn.

Gofynnodd y Cyngor am gyllid cyllideb tair blynedd gydag ymrwymiad parhaus ar gyfer y tymor hwy ar draws y sector. Byddai hyn yn caniatáu newid mwy cywir ac amserol i'r gwasanaeth gan osgoi toriadau tymor byr adweithiol a fyddai'n peri ansefydlogrwydd.

**Cyngor Gwynedd**

Nododd ymateb Cyngor Gwynedd fod y Cyngor wedi cael cynnydd o 3.2% yn y setliad drafft ar y gyllideb a addaswyd ar gyfer 2024-25 - yr 20fed uchaf o 22 o awdurdodau lleol. Ar ôl addasu ymhellach, mae'r Cyngor yn deall bod y cynnydd wedi ei addasu gyda Gwynedd bellach yn cael cynnydd o 3.1%, 21ain o 22 awdurdod.

Mae'r Cyngor yn derbyn bod gweithrediad y fformiwla yn golygu bod pob awdurdod lleol yn cael cynnydd gwahanol. Rhagwelodd y Cyngor y byddai cynnydd yn y pwysau ariannol yn 2025-26 a fyddai dipyn yn uwch na'r 3.1% yn y setliad dros dro. Roedd ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig tair blynedd yn rhag-weld bwlch o £14 miliwn yn 2025-26 (cyn unrhyw gynnydd yn y Dreth Gyngor). Er ei fod yn croesawu'r cynnydd yn y setliad, a oedd yn well na'r disgwyl, nid oedd y cynnydd presennol yn ddigonol i fodloni ei bwysau ariannol. Ei opsiynau fydd torri gwasanaethau i bobl Gwynedd neu gynyddu lefel y Dreth Gyngor ar raddfa gyfan gwbl annerbyniol.

Yn seiliedig ar y setliad drafft, roedd y Cyngor yn wynebu bwlch o £9 miliwn ar gyfer 2025-26. Felly, byddai angen iddo ystyried cynyddu 9.5% ar y dreth gyngor er mwyn cynnal gwasanaethau sylfaenol i'r rhai mwyaf agored i niwed ac anghenus.

Roedd lefel y setliad yn fygythiad gwirioneddol i allu'r Cyngor i gynnig cymorth gofal cartref neu i gynnal gwasanaethau digartrefedd o £5 miliwn a mwy. Roedd y rhain yn enghraifft glir lle byddai sgil-effeithiau ei anallu i ddarparu'n ddigonol, yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau iechyd lleol.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio cronfeydd wrth gefn yn ystod y blynyddoedd diwethaf i reoli costau heb eu hariannu. Mae'r cronfeydd wrth gefn hyn wedi lleihau'n sylweddol a byddai blwyddyn arall o'u defnyddio i gynnal gwasanaethau sylfaenol yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol agored i niwed y mae heb fod ynddi o'r blaen.

Mae'r Cyngor wedi gorfod paratoi cyllideb ar gyfer 2025-26 heb wybod lefel y cymorth posibl tuag at y costau yswiriant gwladol uwch i'w cyflwyno o ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd.

Mae'r Cyngor yn derbyn bod dyraniad llywodraeth leol yn dibynnu ar fformiwla a chasglu data sy'n cael ei ystyried yn wrthrychol. Roedd cwymp cymharol ei ddyraniad dros ddwy flynedd, o'i gymharu â'r awdurdodau lleol eraill, yn annheg a bron yn amhosibl delio ag ef mewn cyfnod mor fyr. Gofynnodd am gael cyllid gwaelodol o ran y cynnydd yn y setliad fel y gall y Cyngor ac Awdurdodau eraill ddelio â'u pwysau yn rhesymol. Roedd yn credu y dylai'r cyllid gwaelodol fod yn 4.5% yn y cynnydd yn y setliad eleni.

**Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC)**

Gwnaeth ymateb CLlLC ddiolch i Lywodraeth Cymru a'i swyddogion a mynegi ei werthfawrogiad o'r ymgysylltiad adeiladol ac agored yn ystod proses setliad y gyllideb a hynny mewn cyfnod heriol iawn. Byddai'n parhau i drafod effaith cyllidebau a'r penderfyniadau y mae'n ofynnol i gynghorau eu gwneud wrth iddynt barhau i gydbwyso eu cyllid tra'n darparu gwasanaethau pwysig a hanfodol sy'n cefnogi cymunedau lleol ac unigolion agored i niwed.

Cydnabu CLlLC fod y setliad yn mynd i fod yn anodd iawn oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau, chwyddiant a phwysau ariannol a'r heriau ehangach sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Roedd angen cynnydd ariannol sylweddol i gynnal ystod o wasanaethau lleol gydag addysg a gwasanaethau cymdeithasol yn wynebu pwysau ariannol penodol. Roedd safbwyntiau cryf wedi'u mynegi ar lefel y Setliad yng nghyfarfod Bwrdd Gweithredol CLlLC. Roedd cynghorau yn wynebu bylchau sylweddol yn y gyllideb sy'n golygu penderfyniadau anodd ar ddyrannu cyllid a buddsoddiad a beth y gallai hyn ei olygu i gymunedau lleol, gan gynnwys y codiadau yn y Dreth Gyngor y mae eu hangen i helpu i lenwi'r bylchau hynny.

Croesawodd pob cyngor y cynnydd mewn cyllid refeniw craidd a oedd yn 4.3% ar gyfartaledd sy'n cyfateb i £253m. Roedd yn well na'r hyn a ddisgwylid y llynedd. Byddai Setliad ariannol gwastad wedi bod yn drychinebus i wasanaethau a chymunedau lleol. Er i gynghorau groesawu'r Setliad gwell, roeddent yn dal i bryderu bod y lefel ariannu arfaethedig yn cwmpasu ychydig yn llai na hanner y pwysau a nodwyd ac nid oedd yn ddigon i ddiogelu gwasanaethau craidd a thalu am y pwysau allweddol ar wasanaethau.

Ar y lefel bresennol, roedd cynghorau'n cael ei gadael gyda bwlch ariannol o £306m. Amcangyfrifwyd hyn cyn bod newidiadau i gyfraniadau cyflogwyr Yswiriant Gwladol yn hysbys.  Mae'r rhain yn ychwanegu £110m mewn costau staffio uniongyrchol. Pe bai'r costau hyn yn cael eu hariannu'n llawn, byddai pwysau ychwanegol amcangyfrifedig o £44m o hyd mewn gofal cymdeithasol a gomisiynir gyda chostau ychwanegol ar draws gwasanaethau eraill a gomisiynir. Roedd hyn yn gadael cyfanswm pwysau heb ei hariannu o fwy na £350 miliwn yn dilyn mwy na degawd o gyni, cynnydd enfawr mewn chwyddiant ac argyfwng costau byw yr oedd pob un ohonynt yn cael effaith sylweddol a negyddol ar gyllidebau cynghorau**.**

Roedd cynghorau yn gorfod gwneud dewisiadau anodd i geisio cydbwyso eu cyllidebau gan gynnwys ystyried toriadau i wasanaethau yn y meysydd mwyaf sensitif megis ysgolion a gofal cymdeithasol, neu golli llawer mwy o swyddi. Roedd CLlLC yn pryderu am effaith colli swyddi anochel ar wasanaethau a'r trigolion sy'n dibynnu arnynt, yn ogystal â'r rhai sy'n colli eu swyddi a'r darlun cyffredinol o ran cyflogaeth ledled Cymru.

Roedd codiadau uwch yn y Dreth Gyngor  yn debygol o fod yn anochel. Y cynnydd amcangyfrifedig presennol i'r Dreth Gyngor ar gyfartaledd oedd 7.2%, o fewn ystod o 4% i 11% ac roedd yn glir bod rhai cynghorau'n ei chael hi'n anodd pontio'r bwlch ariannu.  Roedd staff cynghorau Cymru yn dal i weithio'n fwy effeithlon gydag arloesi a mwy o ddefnydd o ddigidol, ond roedd yr arbedion a gynhyrchwyd o un flwyddyn i'r llall yn cael eu boddi gan faint y pwysau ar wasanaethau.

Roedd costau wedi cynyddu mewn meysydd allweddol megis digartrefedd, gofal cymdeithasol, plant sy'n derbyn gofal ac ADY, yn llawer cyflymach na chyfradd chwyddiant ac yn sylweddol uwch na chyllid y Setliad.

Byddai unrhyw gyllid ychwanegol y gellid dod o hyd iddo i gynyddu'r Setliad yn cael ei ddefnyddio i ddiogelu gwasanaethau lleol hanfodol yn ystod y flwyddyn i ddod. Gofynnodd CLlLC yn gryf fod cyllid gwaelodol sylweddol yn cael ei roi ar waith, a gâi ei ariannu y tu allan i'r Setliad, i helpu'r awdurdodau hynny a oedd yn cael cyllid ar y pen isaf.

Croesawodd CLlLC y grantiau tai sydd wedi'u trosglwyddo i'r Setliad fel rhan o ymrwymiad ar y cyd i leihau beichiau gweinyddol. Er hynny, roedd yn dal i bryderu am agweddau eraill ar gyllid grant, yn enwedig y rhai sy'n ariannu gweithlu nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan gynghorau. Roedd unrhyw ostyngiad mewn grantiau a dim cynnydd i dalu costau staffio ychwanegol yn golygu y byddai pŵer gwario ar gyfer y ffrydiau ariannu hyn yn cael ei erydu'n sylweddol.  Rhaid defnyddio'r data cadarn mwyaf diweddar.  Mae angen i gynghorau fod â hyder yng nghywirdeb y data a ddefnyddir i bennu lefelau grantiau.

Byddai nifer o gyfrifoldebau deddfwriaethol newydd ac ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn dod â rolau a dyletswyddau ychwanegol i gynghorau. Roedd angen datblygu protocol ar frys a'r egwyddor glir bod unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau newydd a roddwyd arnynt yn cael eu hariannu'n llawn. Dylid galluogi llywodraeth leol i gyfrannu'n llawn at gostio deddfwriaeth arfaethedig drwy Asesiadau Effaith Rheoleiddiol, gan adeiladu ar enghreifftiau diweddar o arferion da ac ymgysylltu lle'r oedd y broses hon wedi'i chydgynhyrchu. Roedd CLlLC yn gobeithio y bydd y Cytundeb Partneriaeth Strategol arfaethedig sy'n cael ei drafod ar hyn o bryd yn galluogi protocolau i gael eu hailddatblygu.

Roedd CLlLC yn aros am yr Adolygiad o Wariant Llywodraeth y DU ac fe gynigiodd ei wasanaethau i helpu i gyflwyno'r achos dros fwy o gyllid cyhoeddus yng Nghymru.

Roedd yn gobeithio am gyhoeddiadau am ragor o gyllid ychwanegol i Gymru gan gynyddu'r setliad llywodraeth leol gan fod pwysau'r gyllideb yn 2026-27 a 2027-28 i gynghorau yn ddi-ildio.